O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2012 Rhif 2255 (Cy.250)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffyrdd yr A40, yr A465 a'r A4042 (System Gylchu Hardwick a'r ffyrdd sy'n arwain ati, y Fenni, Sir Fynwy) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2012.

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *3 Medi 2012* |
| *Yn dod i rym* | *10 Medi 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Rhaglan – Llanymddyfri (yr A40), Cefnffordd Castell-nedd i'r Fenni (yr A465) a Chefnffyrdd Casnewydd i'r Amwythig (yr A465 a'r A4042), (y cyfeirir atynt yma wedi hyn fel "y cefnffyrdd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a'i wahardd ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 10 Medi 2012. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A40, yr A465 a'r A4042 (System Gylchu Hardwick a'r ffyrdd sy'n arwain ati, y Fenni, Sir Fynwy) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2012.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 20.00 o'r gloch ar 10 Medi 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro yn cael eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y darnau o'r gefnffordd” (“*the lengths of the trunk road*”) yw'r darnau o gefnffyrdd yr A40, yr A465 a'r A4042 wrth System Gylchu Hardwick a'r ffyrdd sy'n arwain ati, y Fenni, yn Sir Fynwy a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 50 milltir yr awr, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1, ar adegau pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 5 mewn grym.

**7.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3.

**8.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7 yn gymwys ond ar yr adegau ac i’r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiadau a'r gwaharddiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**9.** Bydd y Gorchymyn hwn yn parhau am 6 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 3 Medi 2012

*R Morgan*

**R MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## YR ATODLENNI

## ATODLEN 1

## TERFYNAU CYFLYMDER 40 MYA A 10 MYA DROS DRO A GWAHARDDIAD DROS DRO AR ODDIWEDDYD

i) Y darn cyfan o gerbytffordd gylchredol cefnffordd yr A465 wrth System Gylchu Hardwick.

ii) Y darn hwnnw o Gefnffordd yr A40, a elwir Monmouth Road, sy'n ymestyn o bwynt 553 o fetrau i'r de o'i chyffordd â Station Road, i bwynt wrth ei chyffordd â System Gylchu Hardwick.

iii) Y darn hwnnw o Gefnffordd yr A40, a elwir Raglan Road, sy'n ymestyn o bwynt 800 o fetrau i'r de-ddwyrain o'i chyffordd â System Gylchu Hardwick i bwynt wrth ei chyffordd â System Gylchu Hardwick.

iv) Y darn hwnnw o Gefnffordd yr A4042, a elwir Llanellen Road, sy'n ymestyn o bwynt 1 cilometr i'r de o'i chyffordd â System Gylchu Hardwick, i bwynt wrth ei chyffordd â System Gylchu Hardwick.

v) Y darn hwnnw o Gefnffordd yr A465, a elwir Gilwern Road, sy'n ymestyn o bwynt 1 cilometr i'r gogledd-orllewin o'i chyffordd â System Gylchu Hardwick, i bwynt wrth ei chyffordd â System Gylchu Hardwick.

## ATODLEN 2

**TERFYN CYFLYMDER 50 MYA DROS DRO**

i) Y darn hwnnw o Gefnffordd yr A40, a elwir Raglan Road, sy'n ymestyn o bwynt 2 gilometr i'r de-ddwyrain o'i chyffordd â System Gylchu Hardwick, i bwynt 800 o fetrau i'r de-ddwyrain o'i chyffordd â System Gylchu Hardwick.

ii) Y darn hwnnw o Gefnffordd yr A465, a elwir Gilwern Road, sy'n ymestyn o bwynt 1.7 cilometr i'r gogledd-orllewin o'i chyffordd â System Gylchu Hardwick, i bwynt 1 cilometr i'r gogledd-orllewin o'i chyffordd â System Gylchu Hardwick.

**ATODLEN 3**

**GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO**

Y darn hwnnw o Gefnffordd yr A465 sy'n ymestyn o bwynt wrth ei chyffordd â System Gylchu Hardwick i bwynt wrth ei chyffordd â'r B4521 wrth Gyffordd Ynysgynwraidd.